

Diolchgarwch

Darlleniad: Genesis 1: 1-31

Molwn di, O! Arglwydd,
Am dy gynllun sydd uwchlaw'r cwbl,
Am dy drefn sydd yn sail i bopeth sydd,
Am dy fwriad cariadus a roddodd gychwyn i fywyd:
Diolchwn i ti!

Molwn di, O! Arglwydd, ffynhonnell popeth sydd,
Am ryfeddod y bydysawd a greaist,
Am y sêr a'r planedau,
Am ddyfnderoedd yr eangderau:
Diolchwn i ti!

Molwn di, O! Arglwydd, creawdwr nef a daear,
Am y creaduriaid a roddaist i'n byd:
Am geinder adenydd y pili-pala,
Ac am groen gwydn yr eliffant,
Am bopeth sy'n hedfan neu'n troedio, yn ymlusgo neu'n nofio,
Yn yr awyr, ar y tir ac yn y môr:
Diolchwn i Ti!

Maddau i ni fel dynoliaeth:
Am amharchu'r hyn a greaist,
Am lygru'r hyn a wnaethost yn lân,
Am ladd yr hyn y rhoddaist fywyd iddo.
Gad inni weld o'r newydd
Mai eiddot ti yw'r ddaear a phopeth sydd.

Molwn di, O! Arglwydd, creawdwr pobloedd y ddaear,
Am i ti wneud pob un ohonom ar dy ddelw dy hun
Gyda synhwyrau a theimladau i werthfawrogi dy roddion.

Am ymennydd i feddwl, calonnau i garu,
Ac anian greadigol i fedru cyfrannu i gymdeithas:
Diolchwn i ti!

Maddau i ni fel dynoliaeth:
Am ormesu ein gilydd, am bob trais a rhyfel,
Pob meddwl, pob gair, pob gweithred
Sy'n bychanu, sy'n brifo, sy'n lladd.
Gad inni weld o'r newydd werth dy ddelw ym mhawb.

Molwn di, O! Arglwydd, cynhaliwr popeth byw,
Am gyfoeth dy gynhaeaf eleni eto,
Am gnwd y ddaear, am ffrwythau'r llwyni a'r coed,
Am silffoedd llawn y siopau ac am fara ar ein bwrdd:
Diolchwn i ti!

Maddau i ni yn y Gorllewin ein hunanoldeb a'n hannoethineb
Fel stiwardiaid dy gynhaeaf di.
Maddau inni mewn byd o ddigonedd
Fod llawer yn llwgu.
Maddau inni mewn byd cyfoethog
Fod llawer yn dlawd.
Wrth inni ddiolch, heddiw, gwna ein diolch yn rhannu,
Er mwyn i eraill fwynhau dy gariad a'th haelioni di.

Molwn di, O! Arglwydd ein Gwardedwr,
Am anfon dy Fab, Iesu Grist, i'n byd.
Am iddo ddod fel un ohonom er mwyn inni ddod yn debycach
iddo,
Am iddo farw drosom ac atgyfodi er mwyn i ninnau gael bywyd yn
ei enw:
Diolchwn i ti!
Cynorthwya ni i fyw yn ei gariad,
I gyhoeddi ei faddeuant
Ac i weithio drosto drwy gydol ein hoes.
Gofynnwn hyn yn ei enw ef. Amen.

Casi Jones